**EITEM AR YR AGENDA: 13**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21 Medi 2015**

**Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (Cyfnod Adrodd 2014-2015)**

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (cyfnod adrodd 2014-2015) i ymateb i ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## Cefndir

2 Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym ym mis Hydref 2010. Roedd y Ddeddf yn dod yn lle dyletswyddau cydraddoldeb gwahanol, yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil, rhywedd ac anabledd, a oedd yn Neddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymestyn sylw'r Ddyletswydd i nodweddion gwarchodedig eraill, sef oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, ac ailbennu rhywedd.

3 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus rhestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt, wrth gyflawni eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

4 Yn Ebrill 2011, defnyddiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei phwerau i gyflwyno dyletswyddau penodol wedi eu cynllunio i gynorthwyo tryloywder ac i alluogi awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Nodir y rhain o fewn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

5 Mae'r ddyletswydd benodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi amcanion cydraddoldeb sy'n gyson â'r rheoliadau, a hwnnw i'w gyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r 31ain Mawrth bob blwyddyn. Dylai'r wybodaeth ymdrin â'r flwyddyn ariannol gyflawn sy'n dod i ben
12 mis cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd.

6 Rhaid i'r diweddariad gynnwys:

- darpariaethau ar gyfer ymgysylltu a chynnwys grwpiau nodweddion gwarchodedig;
- sicrhau bod deunydd cyhoeddedig ar gael yn hawdd;
- asesu effaith polisïau ac arferion;
- hyfforddiant a choladu gwybodaeth am gyflogaeth;
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf ymysg gweithwyr;
- mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg mewn cyflogau;
- adolygu cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb cysylltiedig;
- darpariaethau arferion caffael.

7 Caiff cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth ei reoleiddio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rôl y Comisiwn dan y gyfraith yw amddiffyn, gorfodi a hybu cydraddoldeb. Caiff y rôl hon ei chyflawni drwy ddarparu cyfarwyddyd, a gwaith rheoleiddio a gorfodaeth.

## Gwybodaeth

8 Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol, mae'n ymdrin â chyfnod adrodd 2014-15 ac yn ceisio cwrdd â Rheoliad 16 o'r dyletswyddau penodol Cymreig. Fe'i lluniwyd yn unol â thempled cyfarwyddyd adrodd blynyddol Llywodraeth Cymru. Er cysondeb, mae'r adroddiad yn dilyn trefn y dyletswyddau penodol Cymreig ac yn canolbwyntio'n bennaf ar ddata sy'n gysylltiedig â'n gweithgarwch yn ystod yr amser penodol.

9 Cyflwynir gwybodaeth am gyflogaeth, sy'n cynnwys hyfforddiant a chyflogau, ynghyd â data yn ymwneud â chydraddoldeb wrth recriwtio. Er mwyn sicrhau bod ein data cyfredol am y gweithwyr yn gywir ac yn berthnasol, cychwynnodd y Gwasanaeth ar ymarferiad dilysu data ac ymatebodd 65% o'r gweithwyr iddo. Roedd angen gwaith dilynol i atgoffa'r gweithwyr a oedd heb adnewyddu eu data personol ei bod yn bwysig ymateb a'r rhesymau pam fod y Gwasanaeth yn dal data dilys.

10 Yn 2014-2015, cynhaliodd y Gwasanaeth gyfres o hyfforddiant asesu effaith ar gydraddoldeb. Roedd yr hyfforddiant wedi ei anelu at uwch reolwyr a rheolwyr canol ac wedi ei gynllunio i gynnwys y dadleuon cyfreithiol a moesol dros gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb.

11 Defnyddir data monitro cyflogaeth i hysbysu asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Mae'r asesiadau effaith yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r effeithiau y mae penderfyniadau, polisïau neu wasanaethau yn eu cael ar gydraddoldeb mewn perthynas â gwahanol gymunedau, unigolion neu grwpiau, yn enwedig y rhai sydd fwyaf bregus yn y gymdeithas.

12 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ymdrechwyd i gasglu'r wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r ffocws hwn wedi arwain at ddatblygu system atodol ôl-ddigwyddiadau ar gyfer casglu data yn ymwneud â chydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau, yn ogystal â'r data presennol ar gyfer monitro. Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cynnal treial dros gyfnod o chwe mis gan ddechrau ym Mehefin 2015 pan fydd yr wybodaeth am fonitro cydraddoldeb yn cael ei chasglu yn dilyn digwyddiadau gweithredol penodol: gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, galwadau gwasanaethau arbennig, a thanau mewn anheddau.

13 Gallai'r wybodaeth hon fod yn gymorth i'r Gwasanaeth sicrhau ei fod yn ymgysylltu â phawb o fewn y gymuned, a hefyd yn pennu a yw'r rhai sy'n cael eu gwarchod dan y Ddeddf Cydraddoldeb mewn fwy o berygl o gael tân neu fod mewn gwrthdrawiad traffig ar y ffyrdd. Bydd y cyfnod treialu'n defnyddio gwahanol ddulliau o gasglu data, sef drwy ffurflenni ysgrifenedig, wyneb yn wyneb ac ar-lein.

14 Mae ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn rhan allweddol o'r ddyletswydd benodol. I gefnogi hyn, mae'r Gwasanaeth wedi cynnal awdit manwl yn ddiweddar o'i holl waith ymgynghori ac ymgysylltu gyda chymorth Cyfranogaeth Cymru. Mae ymchwilwyr wedi ymgynghori â'r staff a chynrychiolwyr allanol ac wedi cynnal gweithdai manwl lle'r oedd pobl yn gallu cymryd rhan i ganfod a nodi'n union beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu yn y dyfodol.

15 Yn yr adroddiad, amlinellir y cynnydd mewn perthynas â chyflawni pob un o'n hamcanion gwella, a cheir datganiadau ynghylch pa mor effeithiol yw trefniadau'r Awdurdod ar gyfer canfod a chasglu data perthnasol.

16 Mae'r adroddiad blynyddol atodedig wedi ei anelu at fwy nag un cynulleidfa ac mae'n rhoi cyfle am dryloywder i'n partneriaid a'r cyhoedd.

**Argymhellion**

17 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi cynnwys yr adroddiad;
(ii) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2014-2015 i'w gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth.